Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, 14 Ionawr , 2009 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00 pm

Yn bresennol: Y Cyng. Ros Bellamy , Y Dirprwy Faer y Cyng. Charlotte Leabeater
Y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Ieuan Gwyn,
Y Cyng. Julia Jones.
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref,
Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid,
Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau : Y Maer y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Hugh Towns, y Cyng. Dawn Wallace.

Cof 225 / Ion / 09 Cyfrifon i'w talu.

WCVA (Gweinyddu Rhagfyr 2008)	£	34.79
WCVA (Cyflogres Rhagfyr 2008)	£	167.40
Orchardweb (diweddaru gwefan)	£	22.50
BT (ffôn swyddfa)	£	61.62
Des Davies (clo a handlenni drws)	£	24.35
Ar y Gair (cyfieithiadau)	£	13.50
Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed (cyfraniad cyngor ar gyfer gwaith trydanol yn Neuadd y Sir)	£	1,500.00
Treuliau'r Clerc (tâl postio)	£	106.36
Ymddiriedolaeth y Neuadd Ddinesig (llogi byrddau ar gyfer arddangosiad tân gwyllt)	£	28.00
Y Siambr Fasnach (rhodd tuag at yr Ŵyl Synhwyrau)	£	1,000.00
Davies Electrical (Addurno'r dref â goleuadau Nadolig)	£	3,473.00
Konica Minolta (cost cynnal a chadw llungopïwr y swyddfa)	£	17.77
Menter Bro Dinefwr (cyfieithu cofnodion/dogfennau)	£	1,031.52
Cost chwarterol goleuo troedffordd CSC	£	292.38
Morgan & Morgan (peiriant ateb/ffacs ffôn y swyddfa)	£	115.36

Derbyniwyd y rhain i'w talu. Cynigiwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 226 / Ion /09 Incwm a gafwyd Rhagfyr 2008

Taliad praesept CSC	£	15,891.33
Siec (y Cyng. Ros Bellamy – talu am ginio elusen)	£	25.00
Llog HIDB	£	30.81
	£	529.59

Cof 227 / Ion / 09 Gweddill Cyfrif

Cafodd yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor ei gofnodi a'i **Dderbyn**:

CYFRIF CYFREDOL CTLl	(31.12.08)	£ 15,606.53
CYFRIF CADW CTLl	(27.12.08.)	£ 37,141.60
CYFRIF TREULIAU MAER CTLl	(20.12.08)	£ 547.32

Cof 228 / Ion /09 Manylion cyfrif treuliau'r Maer

Gweddill fel ar 1.4.08		£ 836.86
Taliadau Lwfans		£ 3,000.00
Gwariant		£ - 3,289.54
Gweddill fel ar 20.12.08		£ 547.32
Lwfans a gyllidebwyd ar gyfer 2008-9		£ 4,244.00
Y cinio Gwneud Maer Blynyddol	- Derbyniadau Tocyn	£ 2,748.19
	-Costau Cinio	£ -2,842.77
Rhoddion i Tenovus ac ARC a wnaed yn y Cinio		£ 600.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Charlotte Leadbeater ac eiliwyd gan y Cyng. Chris Parish, y dylid trosglwyddo gweddill y lwfans a gyllidebwyd ar gyfer y Flwyddyn 2008-9, sef swm o £ 1244, i Gyfrif Treuliau'r Maer. Roedd pawb o blaid.

Cof 229 / Ion / 09 Materion Ariannol Eraill

1. Adroddiad yr Archwiliad Allanol ar gyfer 2007-8
   Cafodd yr Archwiliad ei gwblhau'n llwyddiannus, gyda phob cyfrif yn gywir. Yr unig sylw a wnaed oedd i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw roddion a wnaed yn cael eu nodi o dan y penawdau adran cywir. Diolchodd y Cyng. Ros Bellamy i'r Swyddog Cyllid am ei waith.
   Cynigiodd y Cadeirydd, y Cyng. Ros Bellamy fod y Clerc yn cael chwe chopi o'r Canllaw Cynghorydd Da gan LlCC i gynorthwyo Cynghorwyr mewn gweithdrefnau ynghylch rhoddion. Eiliodd y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
2. Rhagolwg Cyllideb Tair Blynedd.
   Gofynnodd y Swyddog Cyllid i'r eitem hon gael ei rhoi ar agenda cyfarfod mis Chwefror y byddai ffigurau cyllideb derfynol y flwyddyn ar gael ar ei gyfer. Roedd pawb yn gytûn.
3. Gofynnodd y Swyddog Cyllid fod adroddiad y Gwiriad Chwarterol yn cael ei roi ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Ionawr. Cytunwyd ar hyn.

4. Roedd y Swyddog Technegol wedi cael cais am rodd yn lle'r trydan a ddefnyddiwyd gan Nicky Bishop a oedd wedi rhoi caniatâd i'r goleuadau Nadolig gael eu pweru gan ei chyflenwad hi. Roedd Mr Davies wedi cyfrifo cost fras y trydan y buasai wedi'i ddefnyddio. Cytunwyd i roi rhodd o £20 i Miss Bishop.

5. Cyflogau Staff
   Roedd y Swyddog Cyllid wedi paratoi dogfen yn amlinellu'r cynnydd yng nghyflogau staff o ganlyniad i'r codiad cyflog cenedlaethol a wnaethpwyd yn 2008, ynghyd â'r newidiadau cynyddol. Cynigiodd y Cyng. Ieuan Gwyn dderbyn y ddogfen ac anfon siec ar gyfer yr ôl-daliadau i WCVA i brosesu'r codiadau cyflog. Eiliodd y Cyng. Chris Parish. Roedd pawb o blaid.

Argymhellodd y Cadeirydd y Cyng. Ros Bellamy y dylid cwblhau'r gwerthusiad staff ar gyfer 2008 cyn gynted â phosibl a chynnal y gwerthusiad ar gyfer 2009 cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn i gynnydd yn y dyfodol ddod yn effeithiol ar 1 Ebrill 2009. Cynigiodd y Cyng. Julia Jones roi'r argymhelliad gerbron cyfarfod y Cyngor Llawn ar 28 Ionawr 2009. Eiliodd y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

6. Cyfrif Treuliau'r Maer – Adroddiad Is-grŵp
   Roedd y Cyng. Ros Bellamy wedi rhoi dogfen bolisi ddiwygiedig i'r Cynghorwyr ei thrafod. Cynigiodd y Cyng. Ieuan Gwyn argymell y ddogfen bolisi i'r Cyngor Llawn ei chymeradwyo. Eiliodd y Cyng. Charlotte Leadbeater y cynnig. Roedd pawb o blaid.
7. Taflenni'r Llwybr Tref Treftadaeth
   Roedd y Clerc wedi cael dyfynbris am ddosbarthu 10,000 o gopïau o'r daflen o SA Marketing i safleoedd a dargedir ledled Gorllewin a De Cymru. Y gost fyddai £35 a TAW am bob mil o gopïau. Cynigiodd y Cyng. Colin Jenkins dderbyn y dyfynbris. Eiliodd y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.
   Roedd y Clerc wedi cael dyfynbris gan argraffwyr Lewis am gyfieithu'r taflenni'n argraffiad Ffrangeg/Almaeneg dwyieithog.
   Cynigiodd y Cyng. Ieuan Gwyn archebu 2000 o gopïau am gost o £373.00. Eiliodd y Cyng. Colin Jenkins.
   Cynigiodd y Cyng. Chris Parish welliant y dylid archebu 5000 o gopïau am gost o £568.00. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Charlotte Leadbeater.
   Rhoddwyd hyn i'r bleidlais gan y Cadeirydd. Derbyniwyd y gwelliant gan 3 pleidlais i 2 bleidlais.
8. Cytunwyd y byddai trafodaeth ynghylch cynnig i drefnu carnifal ar gyfer mis Mehefin 2009 yn cael ei rhoi ar Agenda cyfarfod y Cyngor Llawn i'w gynnal ar 28 Ionawr 2009.

Cof 230 / Ion / 09 Gohebiaeth sy'n gysylltiedig â Chyllid

1. Clwb Garddio Llandeilo a'r Cylch. Cais am gymorth ar gyfer cystadleuaeth Garddio 2009.
   Argymhellodd y Cyng. Ieuan Gwyn fod y Cyngor yn rhoi £100 tuag at y gwobrau. Eiliodd y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
2. Rheoliadau Sylfaen Dreth Awdurdodau Lleol CSC ar gyfer 2009-10 a chais am braesept y Cyngor Tref ar gyfer 2009-10. Byddai'r Swyddog Cyllid yn ateb.

Cof 231 / Ion / 09 Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol

Gan fod y ffôn symudol a ddefnyddir gan y Swyddog Technegol yn ddiffygiol cynigiwyd gan y Cyng. Charlotte Leadbeater ac eiliwyd gan y Cyng. Julia Jones fod Mr Davies yn gwneud ymholiadau i gael un newydd.

Cof 232 / Ion/ 09 Nid oedd unrhyw fusnes pellach

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35 pm.